

Lefel A Cymraeg 2il Iaith - Uned 4 > Astudio Drama *Crash*

Uned 4 – Trefn yr Arholiad

Cyfwyniad – Pwy wyt ti?:

enw, ysgol, pynciau, pam dewis Cymraeg fel Lefel A, y dyfodol.

Adran A – Byw yn Gymraeg (Grŵp)

Y Gymraeg yn yr ardal
Y Gymraeg ar y teledu, y radio, y wê, mewn papurau newydd a chylchgronau
Ffilmiau Cymraeg

Adran B – Trafod y Ddrama > Crash (Grŵp)

Stori'r ddrama
Cymeriadau
Golygfeydd
Technegau
Bwriad/nod yr awdur
Themâu
Mynegi Barn ar y ddrama

Adran C – Synoptig (Unigol)

Trafod y themâu:
Teulu
Perthynas
Cyfrifoldeb
Cariad
Cyfathrebu

Adran A - Byw yn Gymraeg

Bydd yr arholwr yn gofyn i chi drafod y Gymraeg fel grŵp felly, cofiwch holi eich gilydd a chytuno ac anghytuno gyda'ch gilydd.

Dyma'r math o gwestiynau bydd yr arholwr yn gallu gofyn i chi:

Ble yn yr ardal allwch chi ddefnyddio eich Cymraeg?

Ysgol, Canolfan Hamdden, Clybiau?

Ydych chi'n cael digon o gyfle i ddefnyddio eich Cymraeg yn yr ysgol, yn eich ardal, gyda'r teulu, gyda ffrindiau?

Gwersi Cymraeg, Clybiau Cymraeg?

Pa wefannau Cymraeg byddwch chi'n eu defnyddio?

Golwg 360, ypod.cymru ?

Oes gyda chi apiau Cymraeg ar eich ffôn symudol?

AM, Ap Geiriaduron, Digwyddiadur

Pa raglenni teledu Cymraeg byddwch chi'n eu gwyllo?

Rownd a Rownd, 35 Diwrnod

Fyddwch chi'n darllen papurau newydd neu gylchgronau Cymraeg?

Iawl!, Y Selar, Papurau Bro

Adran B – Stori'r Ddrama > Crash

Stori am dri chymeriad ifanc – Els, Wes a Rhys ydy Crash. Mae'r tri yn wynebu problemau gwahanol ond y math o broblemau mae pob person ifanc yn gallu eu hwynebu.

Mae Els a Wes yn gariadon a drwy'r ddrama maen nhw'n dysgu llawer am ei gilydd; beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol yn eu bywydau ac mae'r pethau hyn yn cael effaith ar eu perthynas.

Mae Rhys yn ffrind da iawn i Els ond ydy o'n ei hoffi hi fel mwy na ffrind? Drwy'r ddrama, mae eu perthynas nhw yn newid wrth iddyn nhw newid fel pobl achos y digwyddiadau a'r bobl yn eu bywydau.

Mae'r ddrama yn dilyn stori y tri chymeriad ac yn adeiladu at grisiendo ar y diwedd ble mae angen i Els, Wes a Rhys wneud penderfyniad pwysig a gweithio allan os mai dyna'r peth iawn i'w wneud!

Cymeriadau

Els – merch pymtheg oed o deulu dosbarth gweithiol/ dosbarth canol. Rhieni cefnogol sy'n awyddus iddi hi wneud yn dda yn yr ysgol. Mae ganddi hi y potensial i wneud yn dda yn ei harholiadau. Cymeriad sy'n mynd drwy gyfnod o ansicrwydd a dydy hi ddim yn gwybod sut i ffitio i mewn.

Els > rhamantus, cas, hunanol

Wes – bachgen pymtheg oed sy'n byw yn y system ofal ac yn gymeriad sydd ar gyrion cymdeithas. Dydy o ddim yn byw gyda'i deulu achos roedd ei dad yn dreisgar. Dydy o ddim yn poeni am ei waith ysgol na gwneud yn dda yn ei arholiadau TGAU. Hoffai fod yn *"international drug dealer"*. Cymeriad sy'n ysu am sefydlogrwydd. Mae o'n berson sydd wedi ei siapio gan y pethau does ganddo fo ddim.

Wes > archolladwy, treisgar, ansicr

Rhys – bachgen pymtheg oed sy'n agos at ei fam a sy'n edmygu ei dad. Mae o'n alluog a chydwybodol ond yn gallu bod yn gomedïwr yn gwneud jôcs. Ffrind da iawn i Els ond yn gallu edrych i lawr ei drwyn ar bobl.

Rhys > uchelgeisiol, call, snobyddlyd

Technegau

Iaith – dim llawer o linellau hir. Llinellau pytiog i adlewyrchu sut mae pobl yn siarad.

Defnyddio tafodiaith ac iaith "pobl ifanc" – mae hyn yn bwysig am mai drama i bobl ifanc ydy Crash.

Defnydd o eiriau Saesneg yn y ddeialog i wneud yr iaith yn fwy realistig.

Hiwmor – Rhys yn gymeriad doniol. Mae hiwmor yn bwysig mewn drama i bobl ifanc i'w wneud yn fwy apelgar. Hefyd, hiwmor yn gwrthgyferbynnu efo'r testunau difrifol yn y ddrama.

Gwrthgyferbyniad – Mae gwrthgyferbyniad yn ffordd dda o ddangos gwahaniaeth rhwng pethau e.e Wes yn gallu bod yn gas efo Els ond mae Rhys yn garedig efo hi bob amser.

Effeithiau sain – oherwydd y llwyfanu moel, mae'r effeithiau sain yn bwysig er mwyn rhoi lleoliad i bob golygfa. Mae synnau arbennig yn cysylltu gyda lleoliadau arbennig – dosbarth, ffreutur ysgol a.y.y.b.

Cylchgronau – <i>Magazines</i>	Arholwr – <i>Examiner</i>	Gwahanol – <i>Different</i>	Awyddus – <i>Keen</i>	Sefydlogrwydd – <i>Stability</i>	Geiriau – <i>Words</i>
Cymeriadau – <i>Characters</i>	Trafod – <i>Discuss</i>	Cariadon – <i>Lovers</i>	Arholiadau – <i>Exams</i>	Archolladwy – <i>Vulnerable</i>	Difrifol – <i>Serious</i>
Golygfeydd – <i>Scenes</i>	Holi – <i>(to) question</i>	Tebyg – <i>Similar</i>	Ansicr – <i>Uncertain</i>	Agos – <i>Close</i>	Gwrthgyferbyniad – <i>Contrast</i>
Technegau – <i>Techniques</i>	Math – <i>Type</i>	Effaith – <i>Effect</i>	Ansicrwydd – <i>Uncertainty</i>	Edmygu – <i>Admire</i>	Effeithiau sain – <i>Sound effects</i>
Themâu – <i>Themes</i>	Gofyn – <i>Ask</i>	Newid – <i>Change</i>	Rhamantus – <i>Romantic</i>	Galluog – <i>Intelligent</i>	Lleoliad – <i>Location</i>
Mynegi barn – <i>Express opinion</i>	Defnyddio – <i>Use</i>	Digwyddiadau – <i>Events</i>	Cas – <i>Nasty</i>	Cydwytbodol – <i>Conscientious</i>	Synnau – <i>Noises</i>
Teulu – <i>Family</i>	Cyfle – <i>Opportunity</i>	Dilyn – <i>Follow</i>	Hunanol – <i>Selfish</i>	Uchelgeisiol – <i>Ambitious</i>	Llwyfanu moel – <i>Bare staging</i>
Perthynas – <i>Relationship</i>	Gwefannau – <i>Websites</i>	Adeiladu – <i>Build</i>	System ofal – <i>Care system</i>	Call – <i>Sensible</i>	Tynnu sylw – <i>Draw attention</i>
Cyfrifoldeb – <i>Responsibility</i>	Apiau – <i>Apps</i>	Penderfyniad – <i>Decision</i>	Ysu – <i>Yearn</i>	Iaith – <i>Language</i>	Cynulleidfa – <i>Audience</i>
Cariad – <i>Love</i>	Rhaglenni – <i>Programmes</i>	Dosbarth canol – <i>Middle class</i>	Treisgar – <i>Violent</i>	Llinellau – <i>Lines</i>	Esgeuluso – <i>Neglect</i>
Cyfathrebu – <i>Communication</i>	Wynebu – <i>(to) face</i>	Cefnogol – <i>Supportive</i>	Poeni – <i>Worry</i>	Tafodiaith – <i>Dialect</i>	Croesgyfeirio – <i>Cross reference</i>

Technegau	Bwriad/ nod yr awdur	Themâu	Mynegi barn	Adran C – Synoptig
Llwyfanu moel – dim llawer o brops ar y llwyfan. Gwneud hyn er mwyn osgoi tynnu sylw oddi ar y ddeialog, yr emosiwn, y stori a’r themâu. (Curiad) – eiliad neu ddwy o dawelwch i ddangos bod y cymeriadau yn meddwl am rywbeth cyn ymateb i gymeriad arall. Mae o hefyd yn rhoi cyfle i’r gynulleidfa brosesu beth sydd wedi cael ei ddweud. Golygfeydd – mae pob golygfa fel dolen mewn cadwyn. Mae pob golygfa yn arwain at y llall ac mae hyn yn gwneud i’r ddrama lifo yn rhwydd a gwneud y stori yn haws i’w ddilyn. Roedd hyn yn bwysig i Sera Moore Williams achos mai drama i ddisgyblion pymtheg oed ydy <i>Crash</i>. Symbolaeth – cyflymder, crasho, y môr, angylion a morfyrnyon. Mae defnyddio symbolau yn helpu’r gynulleidfa weld pethau yn eu meddwl er mwyn helpu deall y stori neu themâu arbennig.	Nod Sera Moore Williams oedd ysgrifennu drama sy’n dangos sut mae pobl ifanc o wahanol gefndiroedd yn ymateb i’w gwahanol broblemau. Mae Wes yn cynrychioli person ifanc sydd ar gyrion cymdeithas; y math o berson sy’n cael ei anwybyddu gan y gymdeithas yn aml neu yn berson sy’n cael ei fferniadu fel rhywun llai pwysig neu yn berson trafferthus efallai. Roedd yr awdur eisiau dangos i gynulleidfa eang o bobl ifanc bod pobl fel Wes yn rhan bwysig o bob cymdeithas a dangos ddylen ni ddim beirniadu neb. Does dim neges pendant i’r ddrama; mae hyn yn fwriadol. Prif nod y ddrama ydy rhoi cyfle i bobl ifanc drafod eu problemau ar ôl ei darllen neu ei gwyllo. Petai Sera Moore Williams yn diweddarau y ddrama, basai hi’n cynnwys y problemau mae technoleg yn ei achosi y dyddiau hyn.	Teulu – mae enghreifftiau o wahanol fathau o deuluoedd yn y ddrama. Teulu cefnogol, teulu cariadus a theulu ar chwâl. Mae hyn yn cynrychioli realiti bywyd. Perthynas – mae perthynas y cymeriadau gyda’i gilydd yn arwain at y digwyddiadau mwyaf yn y ddrama. Hefyd mae perthynas pob cymeriad gyda’i gilydd yn newid drwy’r ddrama. Cariad – cariad teulu, cariad rhwng ffrindiau a’r cariad rhwng dau berson. Mae cariad yn emosiwn cryf ac mae’n dylanwadu ar deimladau’r cymeriadau. Cyfathrebu – mae cyfathrebu effeithiol yn bwysig ond mae diffyg cyfathrebu yn arwain at lawer o broblemau i’r cymeriadau. Cyfrifoldeb – cyfrifoldeb fel ffrind da, fel cariad da, at waith ysgol. Mae cymryd cyfrifoldeb yn bwysig ac mae esgeuluso cyfrifoldeb yn achosi problemau i’r cymeriadau.	Mae dy farn di ar wahanol agweddau y ddrama yn bwysig iawn: Hoff gymeriad – pam wyt ti’n hoffi’r cymeriad a sut maen nhw’n datblygu drwy’r ddrama? Hoff olygfa – beth wyt ti’n ei hoffi am yr olygfa? Ydy o’n dangos rhywbeth arbennig am gymeriad, thema neu dechneg arbennig? Hoff dechneg – wyt ti’n meddwl bod y technegau yn effeithiol? Pam? Y ddrama – beth ydy dy farn ar y ddrama yn gyffredinol. Ydy hi’n ddrama sy’n realistig a sy’n apelio at bobl ifanc? Astudio drama – fwynheuaist ti astudio drama fel rhan o’r cwrs Lefel A neu oedd well gen ti astudio barddoniaeth, ffilm neu’r straeon byrion?	Byddwch chi’n gwneud y rhan hon ar eich pen eich hun. Bydd yr arholwr yn eich holi chi am y themâu yma: teulu, perthynas, cyfrifoldeb, cariad a chyfathrebu. Mae angen i chi drafod y themâu gan gyfeirio at sut maen nhw’n cael eu cyflwyno yn y ddrama ac yna cyfeirio atyn nhw yn y cerddi, ffilmiau, straeon byrion ac unrhyw ddramâu eraill rydych chi wedi eu hastudio ar y cwrs Lefel A. Mae croesgyfeirio yn bwysig iawn. Er enghraifft, ac os ydych chi’n gallu cymharu cymeriadau o’r ddrama gyda chymeriad mewn stori neu yn y ffilm Patagonia efallai, mae hyn yn dangos dealltwriaeth dda ac eich gallu chi i ddefnyddio iaith yn effeithiol. Mae’r rhan yma o’r arholiad yn gyfle da i chi gael sgwrs un i un gyda’r arholwr.